# Deddf Cymwysterau Cymru 2015

**2015 dccc 5**

## RHAN 8

ATODOL

*Is-swyddogaethau*

### 54 Cyflawni gweithgareddau rheoleiddiol gan Gymwysterau Cymru

(1) Rhaid i Gymwysterau Cymru roi sylw i'r egwyddorion yn is-adran (2) wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan—

- (a) Rhan 3 (cydnabod cyrff dyfarnu);
- (b) Rhan 4 (cymwysterau blaenoriaethol a chymeradwyo cymwysterau);
- (c) Rhan 7 (pwerau gorfodi Cymwysterau Cymru);
- (d) adran 46(1)(a) i (c) (adolygu cymwysterau a gymeradwywyd, cymwysterau sydd wedi eu dynodi a chyrff cydnabyddedig);
- (e) adran 48 (cwynion).

(2) Yr egwyddorion yw—

- (a) y dylid cyflawni gweithgareddau rheoleiddiol mewn ffordd sy'n dryloyw, yn atebol, yn gymesur ac yn gyson, a
- (b) mai dim ond at achosion pan fo angen gweithredu y dylid targedu gweithgareddau rheoleiddiol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 54 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 60(2)**

**I2** A. 54 mewn grym ar 21.9.2015 gan O.S. 2015/1687, **ergl. 2** (ynghyd ag erglau. 3-12)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cymwysterau Cymru 2015, Adran 54.